



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Adroddiad Blynyddol 2020/21

Neges oddi wrth ein Cadeirydd, M. Wynn Thomas



Bu'n flwyddyn wael, bu'n flwyddyn dda: gwael oherwydd y pandemig difaol, da oherwydd fe ymatebodd staff y Cyngor, dan arweiniad y Prif Weithredwr egniol, yn wych i'r her eithaf yma, gan arddangos ymroddiad, a dycnwch, a hyblygrwydd rhyfeddol. Ac fe alluogwyd y cyfan drwy gefnogaeth ariannol hael Llywodraeth Cymru a sicrhodd y byddai'r diwydiant llyfrau yng Nghymru yn goroesi'r argyfwng enbyd.

Ac nid ataliwyd cynlluniau'r Cyngor i ailstrwythuro gan y pla. Yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad a gyflwynwyd gan Bwyllgor Medwin Hughes i Lywodraeth Cymru, aethpwyd ati i ad-drefnu o'r bôn i'r brig. Y cam cyntaf oedd sicrhau statws Sefydliad Corfforedig Elusennol, statws sy'n galluogi'r corff i fod yn berchen ar asedau am y tro cyntaf, ac sy'n diogelu'r Ymddiriedolwyr yn ariannol.

Yn sgil y newid hwn, sefydlwyd trefn reoli newydd, gan greu Bwrdd Llywodraethol grymus o Ymddiriedolwyr a benodwyd yn dilyn hysbysebiad cyhoeddus, a sefydlu Cyngor Cyffredinol gyda chyfrifoldebau mwy cyfyngedig. Y mae hyn wedi galluogi'r Cyngor Llyfrau i sicrhau bod ganddo dîm ar y brig o wŷr a gwragedd sydd â phrofiad helaeth o weithio mewn nifer o sectorau perthnasol gwahanol. Bydd eu harbenigedd, eu profiad a'u sgiliau o'r gwerth mwyaf i'r Cyngor fel y bydd ei waith yn parhau i ehangu a bod disgwyl i'w weithgareddau ymestyn i nifer gynyddol o sectorau gwahanol. Mae gan aelodau'r Bwrdd newydd fôr o brofiad rhyngddynt ym meysydd Llywodraeth, Masnach Ryngwladol, Addysg, a'r Diwydiant Cyhoeddi.

Ac fe ddylai'r gwelliannau hyn fod o fudd enfawr i'r Cyngor Llyfrau – sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 60 eleni – wrth i'r sefydliad cenedlaethol pwysig hwn gychwyn ar bennod gyffrous newydd yn ei hanes.

M. Wynn Thomas



Mae'r Prif Weithredwr, Helgard Krause, yn edrych yn ôl dros y flwyddyn ryfeddol ddiwethaf



Trawyd y wlad gan yr argyfwng Covid fel roeddem yn dechrau ein blwyddyn ariannol newydd ym mis Ebrill 2020. O'r cychwyn cyntaf, ein prif flaenoriaeth oedd diogelu'n sector – o fewn byr amser llwyddwyd i sicrhau rhai grantiau argyfwng i lyfrwerthwyr, a dilynwyd hynny gan grantiau i gyhoeddwy. Mae'n anodd mynegi'r teimlad cychwynnol o ansicrwydd a phryder o ran pa effaith a gâi hyn ar ein sector.

Rwy'n falch o ddweud, fodd bynnag, bod fy nghyd-weithwyr, yn hytrach na chael eu parlysu gan y gofidiau hynny, wedi amlygu eu pragmatiaeth nodweddiadol a'u hagwedd bositif arferol wrth fynd i'r afael â'r problemau oedd yn eu hwynebu: i'r tîm Datblygu Cyhoeddi, golygai hyn addasu eu cyfarfodydd i'w cynnal ar Zoom a dod o hyd i ddulliau newydd o gefnogi cyhoeddwy. I'r Ganolfan Ddosbarthu, golygai roi gweithdrefnau gweithio'n ddiogel ar waith mewn amgylchedd cynllun agored a alluogodd staff i ddychwelyd i'r gwaith yn raddol ar ôl cau am 3 wythnos yn unig. Symudodd yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen ei ffocws o ddigwyddiadau'n seiliedig ar gynulleidfa i ymyriadau wedi'u targedu, a hynny mewn cydweithrediad ag Adran Addysg Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol – yn fwyaf arbennig yr ymgyrch bwysig mewn ysgolion i roi llyfr yn anrheg.

Sicrhawyd bod gwales.com ar agor drwy gydol yr amser, gan gydnabod ei rôl hanfodol fel bron yr unig ffynhonnell o lyfrau Cymraeg ar y pryd, a datblygwyd ffolio.cymru o fewn chwe mis i ateb y galw am blatfform e-lyfrau dwyieithog, ac mae rhagor o e-lyfrau bellach ar gael.

Cafodd llofruddiaeth erchyll George Floyd – a'r drafodaeth yn sgil hynny o ran sut i ddileu hiliaeth yn ein cymdeithas – effaith ddofn arnom ni, a dwysawyd hyn gan y graffiti hiliol a beintwyd ar waliau ein pencadlys. Mae llawer o waith eto i'w wneud i sicrhau bod ein cyllid yn cefnogi cynnwys sy'n adlewyrchu Cymru gyfan, a bod y sector yn wirioneddol agored ac yn rhagweithiol wrth roi cyfleoedd am swyddi i gymunedau a dangynrychiolir, boed hynny fel golygyddion, awduron, dylunwyr, marchnadwyr neu reolwyr busnes, a bydd ein cynllun strategol newydd yn pwysleisio ein hymrwymiad i wireddu hyn.

Mewn ymateb i'r amgylchiadau heriol a wynebid gan ein sefydliad, cymerwyd y penderfyniad anodd ond angenrheidiol i ailstrwythuro, ac aethom ymlaen â'n cynlluniau i weithredu strwythur cyfreithiol a llywodraethol newydd – roedd hyn yn ein galluogi i weithredu o fewn terfynau'r grantiau a ddyrannwyd i ni ac i amsugno'r gostyngiad sylweddol mewn trosiant. Mae'n golygu ein bod mewn sefyllfa dda i groesawu cyfleoedd newydd a gwireddu ein huchelgeisiau dros y blynyddoedd nesaf.

Mae rhedeg sefydliad fel hwn yn golygu cydymdrech, a hoffwn ddiolch i'm cyd-weithwyr, yn enwedig y gwirfoddolwyr ar ein his-bwyllgorau a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n rhoi mor hael o'u hamser a'u harbenigedd. Ac yn olaf, rwy'n diolch yn ddiffuant i'n cymuned, i'r awduron a'r darlunwyr sy'n creu'r straeon hynny sy'n ein porthi ni, i'r cyhoeddwy sy'n eu siapia a'u cynhyrchu mor sgilgar, ac i'r llyfrwerthwyr sy'n ein helpu i ddewis y llyfr perffaith ar ein cyfer ni a'n hanwyliaid.

Helgard Krause



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Dathlu llwyddiant gyda Gwobrau Tir na n-Og yn 2020

Enillwyd tri chategori'r gwobrau gan lyfrau o safon arbennig o uchel, ac yn sgil y pandemig cynhyrchwyd cynnwys digidol bywiog wrth i ni weithio i ddod â'r teitlau ar y rhestr fer yn fyw i gynulleidfaoedd gartref.

Er mwyn gwneud hyn tra bod ysgolion a llyfrgelloedd ar gau, aethom ati i gynhyrchu a rhannu ffilmiau byrion o'r awduron ar y rhestr fer yn cyflwyno eu teitlau eu hunain. Cydweithiwyd hefyd â Theatr Arad Goch i gynhyrchu darlenniadau o'r 6 llyfr Cymraeg, gydag actorion yn recordio eu pytiaid gartref. Roedd yr holl gynnwys ar gael am ddim i ysgolion a theuluoedd ei fwynhau.

- Enillydd categori'r llyfr Cymraeg i oedran cynradd: **Pobol Drws Nesaf** gan Manon Steffan Ros a Jac Jones (Y Lolfa)
- Enillydd categori'r llyfr Cymraeg i oedran uwchradd: **Byw yn fy Nghroen** gan Sioned Erin Hughes (Y Lolfa)
- Enillydd categori'r llyfr Saesneg: **Storm Hound** gan Claire Fayers (Pan Macmillan)



Caru Darllen

Buom yn gweithio gyda dau awdurdod lleol ar eu hymgyrchoedd Caru Darllen i hyrwyddo darllen ac i gefnogi lles plant a theuluoedd a datblygu eu darllen tra bod yr ysgolion ar gau dros y cyfnod clo a gwyliau'r haf.

Cydweithiwyd gydag ystod o bartneriaid i helpu i sefydlu Gŵyl Caru Darllen gyntaf Merthyr Tudful yn ystod haf 2020. Anfonwyd 7,000 o lyfrau at blant a theuluoedd yn y sir i gefnogi nod yr ŵyl, sef annog plant, teuluoedd a phobl ifanc i ddarllen.

Yng Ngheredigion, anfonwyd 100 pecyn o lyfrau at 100 o deuluoedd lle roedd plant yn derbyn cymorth drwy Gyngor Sir Ceredigion. Roedd y pecynnau'n cynnwys llyfrau darllen ar gyfer gwahanol oeddrannau a diddordebau, ynghyd â phensiliau lliw a gweithgareddau.





Rhoi llyfr yn anrheg

Ym misoedd Rhagfyr a Ionawr, anfonwyd pecyn o 41 o lyfrau sy'n cefnogi iechyd a lles i bob ysgol gynradd yng Nghymru. Roedd y pecynnau'n rhad ac am ddim, ac yn cynnwys llyfrau stori a llun a llyfrau darllen oedd yn addas i blant 4–11 oed.

Dewiswyd y llyfrau gan banel o arbenigwyr, a pharatowyd deunydd atodol gan rwydwaith o athrawon sy'n arbenigo ym meysydd llythrennedd, iechyd a lles.

Y nod oedd cefnogi ysgolion wrth iddynt gyflwyno pynciau'n ymdrin ag iechyd a lles fel rhan o'r cwricwlwm newydd, yn ogystal â helpu athrawon i drafod y materion hyn mewn cyfnod hynod o heriol.

Ariannwyd y cynllun iechyd Da yn uniongyrchol gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru a'i gydlynw gan ein timau yng Nghyngor Llyfrau Cymru.

Darllen yn Well – cefnogi plant a phobl ifanc.

Mewn cydweithrediad â'n cyfeillion yn The Reading Agency, cyfieithwyd 21 o lyfrau i'r Gymraeg i gefnogi iechyd meddwl a lles plant. Mae'r llyfrau, sy'n gyfuniad o deitlau ffuglen a ffeithiol, yn cynnwys ystod o bynciau – o les cyffredinol i iechyd meddwl a rheoli teimladau, ynghyd â byw gyda chyflyrau penodol neu anableddau corfforol.

Maent yn ddull amhrisiadwy o agor sgwrs bwysig gyda phlentyn ynghylch ei deimladau, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r llyfrau ar gael yn rhad ac am ddim drwy'r llyfrgelloedd neu i'w prynu mewn siopau llyfrau lleol.

Mabwysiadwyd y cynllun hwn, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, gan bob awdurdod llyfrgell yng Nghymru.



Cefnogi'r diwydiant a'n staff drwy addasu a mabwysiadu dulliau newydd o weithio

Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r patrymau gwaith wedi newid i bob un ohonom.

Mae'r newidiadau i batrymau gwaith hyblyg a phlatfformau digidol wedi ein galluogi i ddarparu gwasanaeth gwell a mwy hyblyg i'r diwydiant mewn cyfnod argyfyngus yn ein hanes. Cyfarfu'r panelau Grantiau dros Zoom, gan ein galluogi i ymateb yn fwy hyblyg a gwneud penderfyniadau ynghylch ariannu yn fwy cyflym yn ystod y pandemig.


Yn yr un modd, roeddem yn gallu cwrdd yn amlach â chyhoeddwr a llyfrwerthwr, gyda llawer mwy o bobl yn mynychu'r cyfarfodydd gan eu bod yn cael eu cynnal yn ddigidol, heb i neb orfod teithio.

Canlyniad y newidiadau technolegol hyn yw bod gan y Cyngor bellach y potensial i ddenu staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Mae'r dulliau newydd hyn yn creu gwahanol gyfleoedd i'n galluogi i weithio gydag ystod eang o bobl all ddod ag amrywiaeth cyfoethog o wahanol safbwyntiau, profiadau ac arbenigeddau i'r Cyngor ac i'n gwaith.

Roedd llawer o'r mesurau newydd a fabwysiadwyd wedi dod o ganlyniad i 'feddwl y tu allan i'r bocs' yn ystod y pandemig Covid. Ac nid popeth fydd yn mynd yn ôl i mewn i'r bocs chwaith!



Ym Mehefin 2020, bu i ni ddosbarthu grant argyfwng yr oedd mawr ei angen i gefnogi'r sector, yn ychwanegol at y £51,000 a ddosbarthwyd i'r siopau llyfrau ym mis Mawrth 2020. Buom hefyd yn cefnogi Cymru Greadigol wrth werthuso ceisiadau ar gyfer arian o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol lle'r oedd cyhoeddi yn sector allweddol.



Ffolio yw'r platfform e-lyfrau cwbl ddwyieithog cyntaf yng Nghymru, ac rydym yn falch ein bod wedi llwyddo i'w ddatblygu o fewn dim ond chwe mis, gan ymateb i'r angen i sicrhau bod e-lyfrau Cymraeg ar gael yn ystod y pandemig. Drwy Ffolio gallwn gefnogi cyhoeddwr sy'n elwa o delerau masnachol gwell, a siopau llyfrau sydd ar eu hennill wrth i'r cwsmeriaid ddewis pa siop lyfrau i'w chefnogi gyda'u pryniant.

Lansiwyd Ffolio yn Ionawr 2021 gydag 800 o lyfrau, ac mae 600 yn rhagor o e-lyfrau bellach ar gael, diolch i'r prosiect hwn.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Aethom ymlaen â'n cynlluniau i fuddsoddi yn systemau TG y Ganolfan Ddosbarthu. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, a reolwyd ac a ddyfarnwyd yn rhithiol, penodwyd KNK ym mis Medi 2020. Dyma ddechrau prosiect newydd, cyffrous a fydd yn gwella ein gwasanaethau i gyhoeddwy'r a llyfrwerthwyr yng Nghymru. Bydd yn galluogi'r Cyngor Llyfrau i weithredu'n gystadleuol mewn marchnadoedd newydd, gan ddenu busnesau a chyfleoedd newydd i'r diwydiant ehangach yng Nghymru, a sicrhau dyfodol y diwydiant.

Ym mis Mai 2020 gosodwyd paneli solar ar do'r Ganolfan Dosbarthu. Disgwylir y bydd hyn yn arbed 15.7 tonnelli o CO2 y flwyddyn. Erbyn diwedd Mawrth 2021 roedd y paneli wedi cynhyrchu 22157 kWh o ynni.

Hyrwyddo siopau llyfrau

Pan ddaeth yn amlwg y byddai'r cyfnod clo yn parhau am fisoedd lawer, aethom ati i ganolbwyntio'n sylw ar ddatblygu modelau gwasanaeth newydd i gefnogi siopau'r stryd fawr a'r cyhoeddwy'r, megis danfon i'r cartref a chefnogi siopau llyfrau i gynnig gwasanaeth 'clicio a chasglu'.

Pan ganiatawyd i siopau llyfrau ailagor, ymunwyd â'r ymgyrch #CefnogwchSiopauLlyfrau, oedd yn annog cwsmeriaid i gefnogi eu siopau llyfrau annibynnol lleol.

Canolbwyntiwyd ar helpu llyfrwerthwyr i ddatblygu eu gwefannau trwy ddarparu grant i ddatblygu neu wella eu presenoldeb ar y we. Darparwyd hyfforddiant ar agweddau digidol ac ar y cyfryngau cymdeithasol, a chrëwyd asedau digidol megis map rhyngweithiol o siopau llyfrau lleol a chynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i'w ddefnyddio i gyrraedd eu cwsmeriaid a'u cymunedau lleol.

Ym mis Hydref 2020 lansiwyd #CaruDarlenn – cyfres o bodlediadau Cymraeg newydd sbon lle mae amrywiaeth o westeion o bob rhan o'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn trafod llyfrau a darlenn.



#CefnogwchSiopauLlyfrau



Ein blwyddyn mewn rhifau

1300

Nifer y parseli o lyfrau a anfonwyd i ysgolion, a noddwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi lles disgyblion



217

Nifer y llyfrau Cymraeg a gefnogwyd gan grantiau



69

Nifer y llyfrau Saesneg a gefnogwyd gan grantiau



7

Nifer yr Ymddiriedolwyr newydd a benodwyd i'r Bwrdd



28%

Y cynnydd mewn dilynwyd ar y cyfryngau cymdeithasol rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021



22157kWh

Y trydan a gynhyrchwyd gan y paneli solar ers eu gosod ym mis Mai



15.7

Tunelli y flwyddyn o CO2 a arbedwyd trwy osod y paneli solar



443015

Nifer y llyfrau a anfonwyd o'r Ganolfan Ddosbarthu



767

Y nifer o lyfrau newydd a ychwanegwyd at gyflenwad eang y Ganolfan Ddosbarthu



335

Nifer y siopau a wasanaethwyd yn ystod 2020–2021



**ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021**

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Amcanion a Gweithgareddau'r Elusen 2–4

Crynodeb o Waith y Flwyddyn 4–6

Targedau a Chyflawniad 6–7

Adolygiad Ariannol a Chynlluniau'r Dyfodol 8–9

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr 10

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol 11–14

Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol 15

Mantolen 16

Datganiad o'r Llif Arian 17

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 18–32

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Cyflwynna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021. Dyma flwyddyn olaf yr elusen gan y bydd yr asedau a'r rhwymedigaeth yn cael eu trosglwyddo i elusen newydd o'r un enw ar 1 Ebrill 2021.

Prif Weithgareddau'r Elusen

- Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru ynghyd â deunydd cyffelyb arall;
- Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a chydgyssylltu buddiannau awduron, cyhoeddwr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd;
- Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy ddyfarnu grantiau/comisiynau a sianelir trwy gyhoeddwr;
- Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.

Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae aelodau'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried eu dyletswydd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 ynglŷn â Budd y Cyhoedd. Maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r meini prawf hynny. Amcan craidd y Cyngor Llyfrau yw darparu budd i ddarlennwyr Cymru – yn y ddwy iaith.

Manylion Gweinyddol

Enw'r elusen	Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales
Rhif Elusen Gofrestredig	505262
Cyfeiriad Cofrestredig	Castell Brychan Aberystwyth Ceredigion SY23 2JB
Archwilwyr	Llŷr James Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig 25 Stryd y Bont Caerfyrddin SA31 3JS
Bancwyr	HSBC plc Sgwâr Harford Llanbedr Pont Steffan Ceredigion SA48 7DU
Prif Weithredwr	Helgard Krause
Brocer Buddsoddiadau	Blackrock 12 Throgmorton Avenue London EC2N 2DL

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Ymddiriedolwyr

Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yw ymddiriedolwyr Cyngor Llyfrau Cymru. Bydd aelod sydd yn gynrychiolydd neu sydd wedi'i gyfethol yn dal y swydd am dair blynedd o ddechrau'r Cyfarfod Cyffredinol nesaf ar ôl ei benodi neu ei gyfethol, ond os bydd aelod yn ymadael â'i swydd am unrhyw reswm cyn diwedd ei dymor, bydd gan y Cyngor yr hawl, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwaith neu'r corff y mae'r aelod yn ei gynrychioli, fel y bo'n berthnasol, i benodi rhywun yn ei le i ddal y swydd hyd ddiwedd y tymor penodedig. Yr ymddiriedolwyr ar gyfer 2020/21 yw:

Prif Swyddogion

Yr Athro M. Wynn Thomas
Mrs Rona Aldrich
Yr Athro Jane Aaron
Mr Chris Hywel Macey
Mr Gwydion Hughes
Mr Alun P. Thomas

Cadeirydd
Is-gadeirydd
Ysgrifennydd Mygedol
Trysorydd
Cwnsler Mygedol
Cyfreithiwr Mygedol

Awdurdodau Lleol

Y Cynghorydd John Pritchard
Y Cynghorydd Lynford Thomas
Y Cynghorydd John T. Davies
Y Cynghorydd Rhidian Mizen
Y Cynghorydd Jane Henshaw
Y Cynghorydd Veronica Crick

Wrecsam
Ceredigion
Sir Benfro
Castell-nedd Port Talbot
Caerdydd
Torfaen

Cynrychiolwyr Eraill

Mr Richard Bellinger
Mr Gareth Griffiths
Mr Meilyr Rowlands / Mr Dyfrig Ellis
Dr D. Mark Smith
Mr Pedr ap Llwyd / Manon Foster Evans
Dr Amy Staniforth
Mr Ion Thomas / Ms Bethan Gwanas
Ms Marian Delyth
Mr Dafydd John Pritchard
Mr Robat Arwyn
Mrs Lorna Herbert Egan
Yr Athro Daniel G. Williams
Dr Cathryn Charnell-White
Mr Jonathan Adams

Llyfrgellwyr Sir Cymru
Llyfrgellwyr Sir Cymru
Estyn
CBAC
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
CILIP Cymru Wales
Cyfeillion y Cyngor Llyfrau
Cyfeillion y Cyngor Llyfrau
Llenyddiaeth Cymru
Panelau'r Cyngor
Panelau'r Cyngor
Panelau'r Cyngor
Aelod Cyfetholedig
Aelod Cyfetholedig

Cyfansoddiad

Cyfansoddiad ysgrifenedig yw offeryn llywodraethu Cyngor Llyfrau Cymru. Sefydliad anghorfforedig annibynnol a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig yw'r Cyngor Llyfrau. Cafodd y Cyfansoddiad ei ddiwygio ar 12 Gorffennaf 2019.

Y Cyngor a'i bwyllgorau

Rheolir y Cyngor Llyfrau gan Gyngor a Phwyllgor Gwaith a benodir yn unol â'i Gyfansoddiad ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol Cymru, a chroestoriad o sefydliadau diwylliannol Cymru. Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yw ymddiriedolwyr yr elusen. Un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gwaith yw'r Panel Enwebiadau sy'n penodi aelodau i'r panel arbenigol sy'n adrodd i'r Pwyllgor Gwaith. Swyddogaeth y Panel Enwebiadau yw sicrhau bod y drefn o benodi aelodau i'r panelau, trwy hysbysebu agored, yn deg a thryloyw, yn unol â threfn arfer gorau.

Crynodeb o waith y flwyddyn

Roedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn un o'r cyfnodau mwyaf heriol a gafwyd ers sefydlu'r Cyngor Llyfrau, ac rydym yn parhau i addasu i'r amgylchedd cyson gyfnewidiol rydym yn gweithredu ynddo. Roedd natur amrywiol ein gwaith yn golygu bod ar bob rhan ohono angen ymyriadau a oedd, er yn wahanol, yn cael eu targedu'n ofalus.

Yn anad dim, roedd ein ffocws cychwynnol ar sicrhau dulliau gwaith diogel yn ein Canolfan Ddosbarthu, lle mae'n rhaid i'r staff fod yn gorfforol bresennol i fod yn weithredol. Rydym yn falch iawn o'r ffaith mai dim ond am dair wythnos y bu ein warws ar gau, a hynny er mwyn rhoi'r addasiadau angenrheidiol ar waith; yn y cyfamser, roedd gwales.com yn weithredol drwy'r cyfnod ar ei hyd. Llwyddodd y Ganolfan Ddosbarthu hefyd i basio nifer o archwiliadau COVID cwbl ddirybudd; digwyddodd hynny o ganlyniad i'r gweithdrefnau clir a chyson a roddwyd ar waith, a'r rheiny'n ddealladwy ac yn cael eu dilyn gan y staff.

Fodd bynnag, roedd yr effaith ar werthiant yn ystod dau fis cyntaf y cyfnod clo yn ddramatig; oherwydd hynny roeddem yn ddiolchgar am y cynllun ffyrlo, a gwnaed defnydd ohono i gefnogi'r swyddi hynny yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan y cyfnod clo, megis y cynrychiolwyr gwerthu, y rhai oedd yn gweinyddu'r gwerthiant, a'r gweithwyr dosbarthu.

Yn ystod ail chwarter y flwyddyn, symudodd y ffocws o'r ymateb argyfyngol cychwynnol i gynllunio a a chymryd camau lliniaru yn erbyn y posibilrwydd o ragor o amharu ar y busnes; gwnaed hynny drwy ddatblygu modelau gwasanaeth arloesol, megis cludo'n uniongyrchol i gartrefi a chefnogi siopau llyfrau yn eu gwasanaethau clicio a chasglu. Mewn cydweithrediad â'r Booksellers Association of the UK and Ireland, buom yn cynghori Llywodraeth Cymru ar fater canllawiau priodol i ailagor; yn ogystal, dyfeisiwyd ymgyrch farchnata i annog pobl yn ôl i'r siopau llyfrau. Arweiniodd cyfarfodydd ar-lein cyson gyda'r llyfrwerthwyr at nifer o newidiadau parthed atodiadau marchnata, a'r modd y cafodd grantiau'r cynllun ymestyn eu haddasu i wahanol bwrpasau oherwydd nad oedd digwyddiadau wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu.

Nodweddwyd y trydydd chwarter, fel bob blwyddyn, gan werthiant da adeg y Nadolig, gyda'r llyfrwerthwyr yn perfformio'n gryf a chyhoeddwyd yn helpu trwy ryddhau teitlau'n gynnar gyda'r bwriad o liniaru effaith unrhyw gyfnodau clo pellach. Rhyddhad mawr oedd deall y byddai modd i lyfrwerthwyr weithredu gwasanaeth clicio a chasglu yn ystod yr ail gyfnod clo, a thrwy hynny cafwyd cymorth i gynnal lefelau da o fasnachu. Yn chwarter olaf y flwyddyn roedd y ffocws ar gyflenwi pecynnau llyfrau i ysgolion a llyfrgelloedd, diolch i nawdd a dderbyniwyd gan y Llywodraeth. Roedd y

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

sbardun economaidd hwn yn gymorth mawr i liniaru effaith diffyg yn y trosiant, gan fod llyfrwerthwyr a chyhoeddwyd yn cael budd uniongyrchol ohono.

Buom yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddosbarthu arian argyfwng, gan barhau hefyd i gynghori ar delerau ac amodau yng nghyd-destun arian argyfwng a gyfrannwyd drwy'r Gronfa Adfer Ddiwylliannol ar gyfer cwmnïau a gweithwyr llawrydd fel ei gilydd.

Oherwydd y buddsoddiad a wnaed eisoes yn ein hisadeiledd Technoleg Gwybodaeth, roedd modd i ni symud staff gweinyddol i drefniant o weithio o gartref gydag ychydig iawn o anghyfleustra i'n gweithrediadau. Llwyddodd yr Adran Grantiau i addasu'n gyflym i'r drefn o gynnal cyfarfodydd o'r panelau ar-lein, gan gynyddu amllder y cyfarfodydd a gynhelir er mwyn galluogi prosesu ceisiadau'n gyflymach a thrwy hynny gefnogi'r cyhoeddwyd.

Yn sgil yr effaith ddifrifol a gafodd COVID ar y modd y bydd yn rhaid i ni weithredu yn y dyfodol, dangoswyd yn eglur iawn yr angen am ailasesu sgiliau a chapasiti staff y Cyngor Llyfrau – elfen oedd wedi parhau'n ddigyfnewid dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Mae'r cynnydd syfrdanol yn y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau digidol wedi tynnu sylw at nifer o fylchau sy'n bodoli, a buom yn ffodus o gael cymorth gan ymgynghorydd i fynd i'r afael â diffyg arweinydd cyfathrebu, gan sylweddoli bod angen gwella'r ddau faes hyn. Atebwyd yr alwad a ddaeth gan Lywodraeth Cymru am ragor o e-lyfrau trwy roi blaenoriaeth i ddatblygu platfform e-lyfrau cwbl ddwyieithog; rydym yn ymhyfrydu yn y ffaith bod www.ffolio.cymru wedi dod i fodolaeth o fewn llai na chwe mis, ac yn y flwyddyn ariannol hon gwelwyd cynnydd yn nifer yr e-lyfrau o 1,821 i 2,431, gyda nifer sylweddol ohonynt drwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf.

Er mwyn darparu profiad mwy integredig a llyfn i'r cwsmer, aethom ati i gyfuno'r timau gwerthu a gwasanaethu'r cwsmer, gan roi llai o bwyslais ar gynrychiolwyr gwerthu allan yn y maes, ond hefyd recriwtiwyd swyddog datblygu busnes profiadol i helpu yn y gwaith o dyfu'r busnes dosbarthu y tu hwnt i'w farchnadoedd traddodiadol.

O ran yr Adran Grantiau Cyhoeddi, arweiniodd hyn at integreiddio'r tîm golygyddol i mewn i'w maes hwy; nod hyn yw sicrhau gwell aliniad strategol o ran y gwasanaethau y mae'r adran yn eu darparu er mwyn, yn y pen draw, mynd i'r afael â'r gwendidau sy'n bodoli eisoes ymhlith rhai cyhoeddwyd, ond hefyd i gefnogi busnesau newydd.

Roedd yn rhaid i'r tîm llyfrau plant a hyrwyddo darllen addasu eu gweithgareddau, gan eu bod yn dibynnu ar gael cynulleidfâ, ac yn nyddiau cynnar y cyfnod clo buont yn ffocysu ar gefnogi cynllun Llywodraeth Cymru, Dal Ati i Ddysgu. Cofleidiodd y tîm y cyfle am gynnwys digidol ac ymgysylltiad, a pharhau i weithio gyda phartneriaid. Bu swyddogion hefyd wrthi'n nodi cyfleoedd trwy weithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi plant a theuluoedd bregus gan ddarparu pecynnau o lyfrau'n rhad ac am ddim i liniaru effaith colli amgylchedd yr ystafell ddosbarth ac, yn enwedig, yr effaith ar ddysgu cyfrwng Cymraeg. Roedd yr adran yn allweddol wrth sicrhau cyllid i ddarparu llyfrau am ddim i ysgolion, a rhoi sylw i feysydd sy'n flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, megis lechyd Meddwl a Lles, ac Amrywiaeth a Chynhwysiant, a byddwn yn datblygu'r cyfleoedd hynny ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Cydnabuwyd bod angen ymgysylltu fwyfwy â'r agenda amrywiaeth a chynhwysiant, o ran y math o lyfrau rydym yn eu cefnogi ond hefyd o ran y sefydliad ei hun. Lluniodd yr Adran Grantiau asesiad o deitlau a gefnogwyd dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, a bydd y meincnod hwn yn ein galluogi i osod targedau i fynd i'r afael â diffyg amrywiaeth lle bo'n bodoli. Yn achos ein sefydliad ni, golygai hyn fod pob cyflogai wedi cwblhau hyfforddiant ar ragfarnau anymwybodol, a'n bwriad yw datblygu

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

hyfforddiant parhaus yn y maes hwn. Mae'r gynrychiolaeth o aelodau sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd ar ein panelau wedi cynyddu, ac rydym yn ystyried cynlluniau pellach i weld sut orau i wreiddio'r egwyddor hon yn ein sefydliad.

Aethom ymlaen hefyd fel y bwriadwyd, a chyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, i drosglwyddo'r Cyngor Llyfrau i fod yn sefydliad corfforedig elusennol, ac iddo gyfansoddiad a chylch gorchwyl newydd. Roedd y Prif Swyddogion (y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, yr Ysgrifennydd Mygedol a'r Trysorydd Mygedol) yn trosglwyddo i fod yn aelodau o'r bwrdd ymddiriedolwyr newydd; ym mis Chwefror, yn dilyn proses recriwtio agored, penodwyd 7 o ymddiriedolwyr i'r bwrdd newydd, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o Fwrdd y sefydliad newydd ym mis Ebrill 2021. Roedd holl aelodau blaenorol y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor yn trosglwyddo i fod yn aelodau o'r elusen, a bydd modd iddynt fod yn rhan o'n gwaith trwy eu hymgysylltiad â'n Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Cyflawniad a Pherfformiad

TARGEDAU ALLWEDDOL 2020/21		
	2020/21 Targed	2020/21 Cyflawni
Teipysgrifau – Adran Olygyddol	170	191
Nifer y teitlau a gynorthwywyd gan yr Adran Ddylunio	110	104
Gwerthiant llyfrau drwy'r Ganolfan Ddosbarthu	£4.05m gros £2.7m net	£3,329,973 gros £2,219,982 net
Lefel dyledwyr y Ganolfan	Dim mwy na 2%	8.4%
Gwales: targedau ar gyfer gwerthiant ar-lein i siopau ac unigolion	£3,041,420	£1,753,714
Gwasanaeth Ysgolion	Ymweliadau: 500 Gwerth archebion: £400,000	Ymweliadau: ddim yn bosibl oherwydd COVID Gwerth archebion: £102,240
Cynllun Ymestyn	Digwyddiadau: 350 Gwerthiant: £150,000	Dim yn berthnasol o ganlyniad i newid y ffocws i Gynllun Ymestyn Digidol dros y cyfnod clo

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

TARGEDAU ALLWEDDOL 2020/21 – GRANTIAU CYHOEDDI		
	2020/21 Targed	2020/21 Cyflawni
Grantiau Cymraeg		
Nifer y teitlau a gyhoeddir	215	217
Cyfartaledd gwerthiant	1,000 ar ôl 18 mis	723
Cyfanswm y cylchgronau Cymraeg	17	16
Cyhoeddi prydlon yn unol â'r amserlen	98%	95%
Grantiau Saesneg		
Nifer y teitlau Grant Llenyddiaeth a gyhoeddir	75	69
Nifer y teitlau blaendal awdur a gyhoeddir	15 (i'w cyhoeddi) (+ 10 wedi'u comisiynu)	16 (i'w cyhoeddi) (+ 21 wedi'u comisiynu)
Grantiau Marchnata	20	25
Nifer y cylchgronau llenyddol	5	9
Cyfartaledd gwerthiant cylchgronau llenyddol	Cyffredinol – 1,000 Aml-ffocws – 500 Ffocws unigol – 400	Gwybodaeth ar gael ym mis Gorffennaf 2021
Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen	95%	95%

Adolygiad Ariannol

Derbyniwyd cyfanswm o £7.7m o incwm yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â £7.6m yn 2019/20. Roedd y cynnydd yn bennaf o ganlyniad i arian cyfalaf o £630,000 ar gyfer y system newydd sydd wedi ei chomisiynu ac a fydd yn cael ei chyflwyno dros y blynyddoedd nesaf. Cedwir hwn mewn cronfa benodedig ar gyfer y gwaith sylweddol yma. Llwyddwyd i sicrhau grantiau ychwanegol o £405,632 oddi wrth Adran y Gymraeg mewn Addysg i brynu llyfrau i ysgolion a llyfrgelloedd, ac rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth.

Roedd incwm y Ganolfan yn is o £460,156 o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, yn bennaf oherwydd COVID, ond mae'n galonogol i weld bod y Ganolfan yn parhau i wneud elw bychan, a hynny oherwydd gwelliant ym maint yr elw, a'r ffaith i ni dderbyn arian ffyrlo tuag at gyflogau staff nad oeddent yn gallu gweithio.

O'r gwariant o £7.5m (o'i gymharu ag £8.1m yn 2019/20), y symiau ym mhrisiad y Cynllun Pensiwn sydd yn bennaf gyfrifol am y gwarged net o £268,705 (o'i gymharu â diffyg net o £463,908 yn 2019/20).

Gwella oedd hanes buddsoddiadau'r Cyngor (£188K) a buddsoddiadau'r Cynllun Pensiwn, a hynny oherwydd y gostyngiad yng ngwerth y cyfranddaliadau ym mis Mawrth 2020.

Ar 31 Mawrth 2021, roedd asedau net (ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn) yn £2m (2019/20: £1.5m). Mae'r cynnydd oherwydd amseru gwariant y cynllun cyfalaf a fydd yn cael ei wario dros y 2 flynedd nesaf. Mae'r diffyg yn y pensiwn yn cymylu perfformiad ariannol cadarnhaol, lle llwyddodd y Ganolfan Ddosbarthu i gynhyrchu elw er gwaethaf y lleihad yn yr incwm.

Polisi Arian Wrth Gefn

Lluniwyd y Polisi Arian Wrth Gefn i sicrhau bod gan y Cyngor gyllid digonol i gwrdd ag unrhyw ofynion gwariant cyfalaf annisgwyl, a hefyd i ddelio â'r elfen o risg sydd ynghlwm â rhedeg Canolfan Ddosbarthu nad yw'n derbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn cadw'r cronfeydd ariannol hyn mewn nifer o categorïau:

Cronfeydd Anghyfyngedig

- Cronfeydd Cyfalaf – £500,000 i gwrdd â chost hanesyddol yr adeiladau a gwariant cyfalaf annisgwyl. Byddwn yn cynnal archwiliad o'r adeiladau dros y flwyddyn nesaf, gan flaenoriaethu lle mae angen gwariant pellach o'r gronfa yma.
- Cronfeydd Refeniw
 - Pensiwn: Ar 31 Mawrth 2021, roedd gweddill o £3,477,000 (2019/20: £3,641,000). Mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno ar gyfraniadau gyda Chronfa Bensiwn Dyfed tan 31 Mawrth 2021, felly nid oes ganddynt reolaeth bellach ar faint y gronfa yma; fodd bynnag, mae'r diffyg yn debygol o barhau i gynyddu hyd nes y bydd cyfraniadau'n cynyddu.
 - Y Cyngor: Cronfa gadw heb fod yn fwy na 2% o'r grant blynyddol (a fyddai'n golygu £76,380 yn 2020/21). Mae'r gronfa yn £98,106 eleni, sydd ychydig yn uwch na'r targed.
 - Y Ganolfan Ddosbarthu: Targed o gronfa ddigonol i dalu gorbenion am 6 mis (ac eithrio disgownt) (£265,056 ar sail ffigurau 2020/21). Maint y gronfa eleni yw £234,674, felly mae'n eithaf agos at y targed.

Cronfeydd Penodol

Yn ogystal â'r arian mewnol a neilltuwyd, mae cronfa o £862,874 bellach ar gael ar gyfer y system newydd gyda chytundeb gyda KNK am gyfran helaeth o'r swm yma i'w wario dros y ddwy flynedd nesaf.

Cronfeydd Cyfyngedig

Mae'r cronfeydd yma ar gyfer y defnydd a nodir yn nodyn 20 yn unig.

Prif Noddwyr

Rydym yn hynod o ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ddarparu cyfran helaeth o arian y Cyngor Llyfrau; heb y gefnogaeth yma, ni fyddai modd i'r Cyngor gyflawni ei waith.

Polisi Buddsoddiadau

Yn unol â'r Cyfansoddiad, mae gan ymddiriedolwyr yr elusen y pŵer i fuddsoddi pan maent yn credu bod buddsoddiad yn briodol. Mae asedau'r elusen ar gael ac yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yn y dyfodol rhagweladwy.

Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad gwirfoddolwyr sydd yn gweithio'n ddi-dâl ar amrywiol banelau a chynlluniau'r Cyngor. Ni allwn roi gwerth ariannol ar yr holl waith yma, felly nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

Trafodion Partïon Cysylltiol

Mae staff ac ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau yn flynyddol ac fel y bônt yn codi. Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiol yn ystod y flwyddyn sydd yn diwedd 31 Mawrth 2021 gan yr ymddiriedolwyr.

Rheoli Risg

Mae'r Cyngor wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol, ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r mathau y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Rhagdybiaeth Busnes Hyfyw

Mae gan yr ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol fod gan y Cyngor adnoddau digonol i ddal ati i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwnnw, mae'n parhau i baratoi Datganiad Ariannol ar y sail ei fod yn fusnes hyfyw.

Polisi Cyfle Cyfartal

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan-amser neu lawn-amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored, ac mae penodiadau yn ddibynnol ar deilyngdod.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR:

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ariannol yn unol â deddfwriaeth gymwys ac Ymarferion Cyfrifyddol Cyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig.

Yn ôl y ddeddf, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cwmni yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr adroddiad 'Datganiadau o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' (SORP);
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth; datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir a gaiff eu hegluro yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd y Cwmni yn parhau i weithredu os nad yw'n amhriodol i dybio hynny.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg, a hefyd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â *Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008*. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i warchod asedau'r Cwmni ac yna i gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu unrhyw afreoleidd-dra arall.

Yn ôl dealltwriaeth yr ymddiriedolwyr:


- nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol ohoni;
- mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliadwy berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ofal a chywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei chynnwys ar safle we'r Elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli, paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodau eraill.

ARCHWILWYR

Yn y Cyfarfod Blynyddol, cynigir ailbenodi'r archwilwyr, Llŷr James.

Cymeradwywyd adroddiad yr ymddiriedolwyr, a'r cyfrifon blynyddol, ar 26 Gorffennaf 2021.



Yr Athro M. Wynn Thomas

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Llyfrau Cymru (yr 'elusen') am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 sef y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen yn ogystal â'r nodiadau perthnasol, yn cynnwys crynodeb o'r polisiâu cyfrifo perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â'r polisiâu cyfrifo sydd yn y nodiadau a gofynion Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Yr Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), yn cynnwys Safon ar Adroddiadau Ariannol 102, 'Y Safon ar Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon'.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr elusen ar 31 Mawrth 2021 ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a wariwyd ganddi am y flwyddyn yn diweddu ar y dyddiad hwnnw.
- wedi eu paratoi yn unol â'r Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, ac
- wedi eu paratoi yn unol â Deddf Elusennau 2011.

Sail ein barn

Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar archwilio (y Deyrnas Unedig) (SRhA-DU) a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny wedi eu disgrifio dan Gyfrifoldebau'r Archwiliwr sy'n rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor ar Adroddiadau Ariannol ("FRC"), ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom yn ddigonol ac yn briodol fel sail i'n barn.

Casgliadau yn ymwneud â hyfywdra

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod yr ymddiriedolwyr yn gywir wrth baratoir datganiadau ariannol ar y sail bod yr elusen yn hyfyw.

Ar sail y gwaith a wnaethpwyd gennym, nid ydym wedi darganfod unrhyw ansicrwydd sylweddol ynglŷn â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw unrhyw amheuaeth ar allu'r elusen i barhau fel elusen hyfyw am gyfnod nid llai na deuddeng mis o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi.

Mae ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ynglŷn â hyfywdra wedi eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr hyn sydd yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol eu hunain ac adroddiad yr archwilwyr ar y datganiadau hynny. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth arall ac oni bai ein bod yn datgan fel arall, nid ydym yn datgan unrhyw farn arni.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021 (PARHAD)

Fel rhan o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a ydy'r wybodaeth yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ag unrhyw fanylion sy'n deillio o'r gwaith archwilio. Os ydym yn dod ar draws unrhyw anghysonderau sylweddol, mae angen i ni benderfynu a oes unrhyw beth naill ai yn y datganiadau ariannol neu'r wybodaeth arall yn gamarweiniol. Os, ar sail ein gwaith, rydym o'r farn bod unrhyw ddatganiad yn gamarweiniol, mae'n ofynnol i ni ddatgan hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Ein barn ni ar faterion eraill yn unol â Deddf Elusennau 2011

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a ymgwymerwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r hyn sydd yn y datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiad blynyddol ac adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion sydd angen adroddiad drwy eithriad

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r elusen a'r diwydiant yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi darganfod unrhyw anghysonderau sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw sylw ar y materion canlynol y mae Deddf Elusennau 2011 yn mynnu ein bod yn eich hysbysu yn eu cylch os, yn ein barn ni:

- nad oedd cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw: neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo; neu
- nad yw rhai manylion ynglŷn â thâl yr ymddiriedolwyr wedi eu datgelu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n angenrheidiol i'r archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel y disgrifir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, nhw sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn ei hystyried yn ddigonol i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o anghysonderau yn deillio naill ai o dwyll neu o gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i weithredu gan ddatgelu, os yw'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyfywdra'r elusen oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r elusen neu ddod â'r gweithgareddau i ben, neu nad oes dewis ganddynt ond i wneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fe'n penodwyd yn archwilwyr o dan Ddeddf Elusennau 2011 (adran 144) ac rydym yn adrodd yn unol â rheoleiddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Ein nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw ddatganiadau sy'n gamarweiniol, yn deillio naill ai o dwyll neu gamgymeriad, a pharatoi adroddiad sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad sydd wedi ei gynnal yn unol â SRhA (DU) bob amser yn canfod camgymeriadau sylweddol. Gall camgymeriadau ddeillio naill ai o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir camgymeriadau felly yn sylweddol os, yn unigol neu fel cyfanswm, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll, yn enghraifft o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn llunio dulliau gweithredu yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddadlennu camddatganiadau sylweddol o ran afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll. Manylir isod ar y graddau y mae'n dulliau gweithredu yn ein galluogi i ddadlennu afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r elusen a'r diwydiant, nodwyd bod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau yn ymwneud â thorri egwyddorion rheoleiddiol y Deyrnas Unedig, fel y rheiny a reolir gan y Comisiwn Elusennau, ac ystyriwyd i ba raddau y byddai peidio â chydymffurfio yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Ystyriwyd hefyd y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, megis Deddf Elusennau 2011. Aseswyd cymhellion a chyfleoedd o ran camddefnydd twyllodrus o'r datganiadau ariannol gan y tîm rheoli (gan gynnwys y risg o fynd y tu hwnt i reolaeth ariannol), a phenderfynwyd bod y prif risgiau yn ymwneud ag amseriad cydnabod incwm a gwariant grantiau er mwyn ystumio perfformiad ariannol. Mae'r dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd yn yr archwiliad yn cynnwys:

- Trafodaethau gyda'r tîm rheoli, yn cynnwys rhoi ystyriaeth i beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a thwyll;
- Adolygu gohebiaeth allweddol gyda'r Comisiwn Elusennau yn ymwneud â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
- Adolygu cofnodion perthnasol cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith;
- Dethol sampl o drafodiadau a'u holrhain yn ôl i'r dogfennau perthnasol er mwyn cadarnhau eu bod yn drafodiadau busnes *bona fide*; a
- Dethol sampl o incwm grantiau a'i olrhain yn ôl er mwyn sicrhau bod y gwariant perthnasol wedi ei gynnwys yn yr un cyfnod ariannol;
- Llunio dulliau gweithredu sy'n cydnabod yr hyn sy'n anrhagweladwy ynghylch natur, amseru neu hyd a lled ein profion.

Mae cyfyngiadau anorfod yn rhan gynhenid o'r dulliau archwilio a ddisgrifir uchod. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau pan nad oes cysylltiad agos rhyngddynt a digwyddiadau a thrafodiadau a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Fel rhan o'r archwiliad, yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) rydym yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnal sgeptigaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamddatgan sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad; llunio a gweithredu dulliau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny; a sicrhau

tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol ac yn addas i seilio ein barn arni. Mae'r risg o beidio â dod o hyd i achos o gamddatgan tystiolaeth oherwydd twyll yn uwch nag un sy'n deillio o gamgymeriad, gan fod twyll yn medru cynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor deunydd yn fwiadol, camliwio, neu fynd y tu hwnt i reolaeth fewnol.

- Sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio dulliau archwilio sy'n addas i'r amgylchiadau, ond nid er mwyn lleisio barn ar effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol.
- Gwerthuso addasrwydd y polisïau cyfrifo a ddefnyddiwyd ynghyd â rhesymoldeb cyfrifon a amcangyfrifir a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan yr ymddiriedolwyr.
- Cadarnhau ei bod yn briodol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar y sail fod yr elusen yn hyfyw, ac, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, a oes ansicrwydd sylweddol ai peidio mewn perthynas â digwyddiadau neu amgylchiadau a allai greu amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r elusen i barhau fel elusen hyfyw. Os penderfynwn fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae'n rhaid i ni dynnu sylw yn adroddiad yr archwilwyr at y datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os yw'r datgeliadau yn annigonol, rhaid i ni addasu ein barn. Seilir ein casgliadau ar dystiolaeth yr archwiliad hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilwyr. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi i'r elusen ddirwyn i ben fel elusen hyfyw.
- Gwerthuso holl gyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodiadau ariannol a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n gyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu â'r sawl sy'n gyfrifol am reoli ynghylch, ymysg materion eraill, cwrpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol a wneir ganddo, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol yn y rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Defnydd o'n hadroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol â Deddf Elusennau 2011. Ymgwymerwyd â'r gwaith archwilio fel bod modd i ni ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan yn adroddiad yr archwilwyr, ac nid i unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ymgymryd â chyfrifoldeb i unrhyw un ond yr elusen ac aelodau'r elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am unrhyw farn a ffurfiwyd gennym.

.....*Bethan Vaughan*.....

DYDDIAD:*26 Gorffennaf 2021*.....

BETHAN VAUGHAN

Prif Archwiliwr Statudol

Ar gyfer ac ar ran

LLŶR JAMES

Archwilwyr Statudol

25 Stryd y Bont

Caerfyrddin

SA31 3JS

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Penodol £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Incwm drwy weithgaredd elusennol						
Grantiau Llywodraeth Cymru	3	1,130,277	630,000	3,171,013	4,931,290	4,466,742
Grantiau Eraill	4	–	–	234,729	234,729	146,500
Adrannau Eraill	5	166,525	–	6,328	172,853	172,146
Gweithgareddau masnachol eraill						
Canolfan Ddosbarthu	9	2,339,569	–	–	2,339,569	2,799,725
Buddsoddiadau	5	–	–	4,734	4,734	4,984
Cyfanswm adnoddau a dderbynnir		3,636,371	630,000	3,416,804	7,683,175	7,590,097
Adnoddau a wariwyd						
Gweithgaredd elusennol						
Grantiau wedi eu dosbarthu	6/7	–	–	2,600,723	2,600,723	2,548,100
Prosiectau penodol		–	–	532,208	532,208	308,383
Gwariant elusennol	8	1,546,070	74,341	322,927	1,943,338	2,410,283
Gweithgareddau masnachol eraill						
Canolfan Ddosbarthu	9	2,338,201	–	–	2,338,201	2,787,240
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	10	3,884,271	74,341	3,455,858	7,414,470	8,054,006
Adnoddau net a dderbynnir cyn trosglwyddiadau		(247,900)	555,659	(39,054)	268,705	(463,909)
Enillion / (Colledion) cydnabyddedig eraill						
(Colled) gwirioneddol ar y cynllun buddiannau pendant	21	391,000	–	–	391,000	(1,063,000)
Symudiad ar y buddsoddiadau	14	–	–	24,877	24,877	(15,990)
Trosglwyddiad rhwng cronfeydd		4,734	–	(4,734)	–	–
Symudiadau net yn y cronfeydd	23	147,834	555,659	(18,911)	684,582	(1,542,899)
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2020		(2,792,054)	307,215	323,351	(2,161,488)	(618,589)
Balansau a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2021	18–20	(2,644,220)	862,874	304,440	(1,476,906)	(2,161,488)

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant.

Mae Ymddiriedolwyr yr Elusen yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod y gronfa bensiwn wedi dylanwadu ar y ffigurau ariannol terfynol. Maent yn awyddus i nodi bod sefyllfa Cronfa Bensiwn Dyfed y tu hwnt i reolaeth y cwmni.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 i 20 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

MANTOLEN ARIANNOL AR 31 MAWRTH 2021

	Nodyn	2021	2020
		£	£
Asedau sefydlog			
Eiddo parhaol	13	415,522	253,008
Buddsoddiadau	14	188,006	163,127
		<u>603,528</u>	<u>416,135</u>
Asedau cyfredol			
Dyledwyr	15	273,029	715,678
Stoc y Ganolfan Ddosbarthu		261,788	307,938
Arian yn y banc ac mewn llaw	16	1,577,396	767,523
		<u>2,112,213</u>	<u>1,791,139</u>
Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	17	715,647	727,762
Asedau cyfredol net		<u>1,396,566</u>	<u>1,063,377</u>
Cyfanswm yr asedau llai dyledion cyfredol		2,000,094	1,479,512
Cronfa Bensiwn	22	(3,477,000)	(3,641,000)
		<u>(1,476,906)</u>	<u>(2,161,488)</u>
Cronfeydd			
Anghyfyngedig	18	832,780	848,947
Cronfa Bensiwn	22	(3,477,000)	(3,641,000)
Anghyfyngedig yn dilyn addasiad pensiwn	18	(2,644,220)	(2,792,054)
Penodol	19	862,874	307,215
Cyfyngedig	20	304,440	323,351
		<u>(1,476,906)</u>	<u>(2,161,488)</u>

Cymeradwywyd gan Swyddogion Mygedol a Phrif Weithredwr y Cyngor ar 26 Gorffennaf 2021 a llofnodwyd ar eu rhan gan y canlynol:

Yr Athro M. WYNN THOMAS Cadeirydd

CHRIS HYWEL MACEY FCCA Trysorydd

HELGARD KRAUSE Prif Weithredwr

CYNGOR LLYFRAU CYMRU**LLIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021**

	Nodyn	2021 £	2020 £
<i>Llif arian yn deillio o weithgareddau gweithredu</i>			
Arian net a ddarparwyd o weithgareddau gweithredu	24	809,873	(258,450)
Arian ar ddechrau'r flwyddyn		767,523	1,025,973
Arian ar ddiwedd y flwyddyn	24	<u>1,577,396</u>	<u>767,523</u>

1. Polisiâu Cyfrifo

Nodir isod y prif bolisiâu cyfrifo a fabwysiadwyd, a'r dyfarniadau a'r ffynonellau allweddol o amcangyfrif ansicrwydd a ddilynwyd, wrth baratoi'r datganiadau ariannol:

a. Sail y paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn effeithiol o 1 Ionawr 2015) – (Elusennau SORP (FRS 102)), y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl y gost hanesyddol neu werth y trafodiad, oni nodir yn wahanol yn y nodyn/nodiadau polisi cyfrifo perthnasol.

b. Stoc

Dangosir y stoc ar yr isaf o'r gost neu'r pris gwerthadwy net. Cyfrifir cost ar sail gwerth pryniant. Seilir gwerth masnachol ar amcan o bris gwerthu llai'r amcan o'r gost gwaredu.

c. Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Ar y fantolen, mae gan Gyngor Llyfrau Cymru ddiffyg ariannol o £1,476,906 (2020: £2,161,488). Mae hyn o ganlyniad i gyflwyno'r rhwymedigaeth a gysylltir â'r Cynllun Pensiwn â Buddion Wedi'u Diffinio. Mae'r Diffyg Pensiwn yn rhwymedigaeth tymor hir, ac mae'r Elusen mewn sefyllfa i gwrdd â'i holl rwymedigaethau cyfredol. Caiff rhwymedigaeth tymor byr y diffyg pensiwn ei chydabod gan yr ymddiriedolwyr, ac maent mewn sefyllfa i gwrdd â'r holl oblygiadau hyn. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn fod yr Elusen, ar y sail yma, yn fusnes gweithredol.

Paratowyd y cyfrifon ar sail y rhagdybiaeth fod yr elusen yn gallu parhau i weithredu fel busnes hyfyw, rhywbeth y mae'r ymddiriedolwyr yn ei ystyried yn briodol.

Nid yw effeithiau pandemig COVID-19 na throsglwyddo endid y Cyngor o fod yn elusen i fod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) ar 1 Ebrill 2021 wedi effeithio ar y rhagdybiaeth hon.

ch. Costau pensiwn

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn gweithredu pensiwn â buddion wedi'u diffinio o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed. Caiff yr addasiadau i'r datganiadau ariannol yn dilyn yr addasiad hwn eu dangos yn nodyn 18, gyda'r diffyg pensiwn llawn yn cael ei ddangos yn nodyn 22.

d. Buddsoddiadau

Cofnodir buddsoddiadau yn ôl gwerth y farchnad.

dd. Asedau sefydlog

Nodwyd asedau sefydlog gwirioneddol ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig. Darperir am ddibrisiant yn ôl cyfraddau a amcangyfrifwyd i ddileu'r gost yn gyson dros y cyfnod y disgwylir i'r ased wasanaethu'n ddefnyddiol, llai yr amcangyfrif o'r gwerth terfynol, fel a ganlyn:

- Cyfrifiaduron ac offer eraill – dros 5 mlynedd (ar ôl cwblhau)
- Darnau gosod a gosodiadau – dros 5 mlynedd

Nid oes gostyngiad yng ngwerth y tir a'r adeiladau rhydd-ddaliad, gan fod y gwerth gweddilliol yn uwch na'r gwerth ar y Fantolen.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

e. Grantiau sy'n daladwy

Caiff grantiau sy'n daladwy eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fo goblygiad cytundebol yn bodoli, er gwaethaf y ffaith y gallant gael eu talu mewn cyfnodau eraill yn y dyfodol.

f. Adnoddau a dderbynnir

Caiff adnoddau a dderbynnir eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fo gan yr Elusen hawl i'r incwm, ac y gellir mesur y swm gyda chywirdeb rhesymol. Mae'r polisiau penodol isod yn berthnasol i wahanol gategorïau o incwm:

- Grantiau: rhoddir cyfrif am y rhain pan fyddant yn gysylltiedig â pherfformiad ac amcanion penodol, gan fod yr Elusen yn ennill yr hawl i gael ei hystyried yn ôl ei pherfformiad. Pan dderbynnir incwm cyn iddo gael ei gydnabod, caiff ei ddal yn ôl a'i gynnwys gyda chredydwyd. Lle bo hawl yn digwydd cyn y derbynnir yr incwm, caiff yr incwm ei gronni. Cyfrifir grantiau cyfalaf fel incwm cyn gynted ag y bydd modd eu derbyn.
- Incwm Masnachu: bydd incwm a godir trwy weithredu'r Ganolfan Ddosbarthu dan reolaeth yr Elusen yn cael ei gymryd i ystyriaeth pan fo ymrwymiad cytundebol yn bodoli.
- Cymynroddion: hawl yw'r cyntaf o ddau beth – naill ai bod yr Elusen yn cael ei hysbysu o ddosraniad a fydd yn digwydd yn fuan, neu bod y gymynrodd yn cael ei derbyn. Ni nodir gwerth lle bo'r cymynrodd yn amodol ar ddiddordeb oes gyfan a ddelir gan barti arall.

ff. Treth

O ganlyniad i'w statws elusennol, nid oes angen i'r Elusen dalu treth gorfforaeth.

g. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

COVID-19

Ystyriwyd effeithiau pandemig COVID-19 ar fesur asedau a dyledion ar y dyddiad adrodd. Nid ystyriwyd bod unrhyw addasiadau'n angenrheidiol i'r datganiadau ariannol.

Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)

Ers 1 Ebrill 2021, mae Cyngor Llyfrau Cymru yn gweithredu fel SCE ac mae'r holl asedau a dyledion wedi'u trosglwyddo o'r elusen ar y dyddiad hwnnw. Nid ystyriwyd bod unrhyw addasiadau'n angenrheidiol i'r datganiadau ariannol.

2. Datganiad o Symudiadau Ariannol

Y gwarged/ (diffyg) am y flwyddyn ar ôl tynnu'r canlynol:

	2021	2020
	£	£
Costau banc	6,837	8,121
Ffi'r Archwilwyr	7,400	7,400
Dibrisiant	6,896	—

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

3. Grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru

	2021	2020
	£	£
Cymru Greadigol – Llywodraeth Cymru		
Grant craidd	1,129,277	1,100,900
Grantiau Cyhoeddi i'w dosbarthu	2,600,723	2,548,100
Grant cyfalaf	630,000	30,000
Grant Argyfwng Ychwanegol	–	150,000
Grant cyfalaf ychwanegol	–	145,269
Grant – Ffair Lyfrau Llundain	–	15,000
Grant – Ffair Lyfrau Frankfurt	–	9,000
Llywodraeth Cymru		
Addysg – Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	140,000	140,000
Adran y Gymraeg mewn Addysg	405,632	300,000
Cymraeg mewn Addysg – Cyllido catalog	4,999	2,000
Cronfa Cadernid Economaidd	1,000	–
Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	19,659	26,473
	4,931,290	4,466,742

4. Grantiau Eraill

	2021	2020
	£	£
Cyngor Sir Ceredigion	9,449	–
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	35,280	–
Y Cyngor Prydeinig	–	4,000
The Reading Agency	190,000	142,500
	234,729	146,500

5. Incwm – Adrannau Eraill a Buddsoddiadau

	2021	2020
	£	£
Cronfeydd anghyfyngedig		
Golygu	16,205	22,009
Dylunio	13,990	18,555
Cyfathrebu a Marchnata	–	96,162
Gwerthu a Gwybodaeth	68,098	13,669
Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen	3,072	
Incwm Buddsoddiadau	4,734	
	7,806	7,984
Gwasanaethau i Ysgolion	–	5,980
Incwm amrywiol	65,160	8,004
Cronfeydd cyfyngedig		
Nawdd Cynllun Hyrwyddo Darllen	3,559	4,101
Cronfa Goffa T Llew Jones	2,768	–
Cyngor y Celfyddydau – Ffair Lyfrau Llundain	–	646
Cronfa Hybu Awduron	–	10
Tlws Mary Vaughan Jones	1	10
	177,587	177,130

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

6. Gwariant – Grantiau Cyhoeddi

	Nodyn	2021 £	2020 £
<u>Cymraeg</u>			
Grantiau tuag at lyfrau	7a	447,233	473,705
Grantiau awduron a darlunwyr		402,730	325,828
Cynllun penodiadau a hyfforddiant		211,285	214,184
Grantiau tuag at gylchgronau	7b	356,414	386,340
Arian i'r wasg Gymraeg		200,000	210,489
Grantiau i lyfrau llafar		3,230	–
Grantiau tuag at farchnata		29,565	35,250
Partneriaethau ac ymchwil		5,390	5,046
Grantiau i lyfrwerthwyr		25,215	26,549
Grantiau i lyfrau dysgwyr		–	666
Grantiau i greu e-lyfrau		26,989	–
 <u>Saesneg</u>			
Grantiau tuag at lyfrau	7c	265,470	291,765
Grantiau tuag at gylchgronau	7ch	204,125	205,985
Grantiau tuag at farchnata		46,484	47,580
Cynllun penodiadau		135,625	88,550
Grantiau i Awduron		37,466	57,117
Clasuron		6,000	4,143
Hyfforddiant		1,875	3,763
Corff i'r sector		3,000	–
Costau gweinyddol		192,627	171,140
Cyfanswm Grantiau Cyhoeddi		2,600,723	2,548,100

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

7. Grant fesul cyhoeddwr

7a. Cyhoeddwy'r Cymraeg – grantiau llyfrau	2021	2020
	£	£
Y Lolfa	124,966	116,301
Gwasg Carreg Gwalch	105,130	90,980
Gwasg Gomer	13,887	65,464
Rily	47,400	38,000
Gwasg y Dref Wen	43,520	43,520
Cyhoeddiadau Barddas	28,200	24,750
Atebol	28,165	24,000
Gwasg y Bwthyn	21,370	20,980
Dalen Llyfrau	5,760	8,750
PETRA	–	6,000
Cyhoeddiadau'r Gair	4,000	5,800
Cyhoeddiadau Curiad	2,600	5,300
Graffeg	4,085	4,680
Sain	–	2,000
Mee Partnership	–	1,950
Dalen Newydd	–	1,680
Gwasg Pantycelyn	–	1,600
Gwasg Prifysgol Cymru	4,000	1,500
Cyhoeddiadau Modern	–	450
Cara	2,450	–
Tâl prydlondeb cyhoeddiadau Nadolig	11,700	10,000
	447,233	473,705

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

7b. Cyhoeddwyr Cymraeg – cylchgronau a gefnogwyd

	2021	2020
	£	£
Barn	60,000	80,000
Golwg	77,000	77,000
O'r Pedwar Gwynt	36,500	34,000
Wcw	30,000	30,000
Y Cymro	24,000	24,000
Lysh	18,664	23,664
Cip	31,000	20,000
Barddas	20,000	20,000
Lingo Newydd	18,000	18,000
Cara	10,000	12,500
Y Selar	11,000	11,000
Mellten	–	10,500
Y Wawr	8,000	8,000
Llafar Gwlad	5,250	7,000
Y Traethodydd	4,000	4,000
Parallel Cymru	–	3,176
Cristion	1,500	2,000
Fferm a Thyddyn	1,500	1,500
	356,414	386,340

7c. Cyhoeddwyr Saesneg – grantiau llyfrau

	2021	2020
	£	£
Seren	95,000	95,000
Parthian	50,100	50,100
Honno	35,987	36,199
Gwasg Gomer	6,400	31,425
Firefly	35,200	28,700
Cinnamon Press	11,250	14,700
Gwasg Carreg Gwalch	1,500	14,600
Gwasg Prifysgol Cymru	7,500	11,250
Y Lolfa	12,816	5,000
Colin Thomas	–	2,000
New Welsh Review	2,900	1,800
Costau mewnol	4,017	991
Rily	1,800	–
Modern	1,000	–
	265,470	291,765

7ch. Cyhoeddwyr Saesneg – cylchgronau a gefnogwyd

	2021	2020
	£	£
New Welsh Review	45,000	57,500
Planet	57,500	45,085
Poetry Wales	20,000	25,000
The Welsh Agenda & Click on Wales	17,500	21,875
Wales Arts Review	34,375	20,625
Nation.Cymru	25,000	20,000
The Ghastling	900	10,000
Grantiau cylchgronau bach a hysbysebu tendr	3,850	5,900
	204,125	205,985

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

8. Gwariant adrannau

	2021	2020
	£	£
Costau		
Golygu	105,985	107,238
Dylunio	95,989	95,738
Cyfathrebu a Marchnata	117,134	217,506
Gwerthu a Gwybodaeth (cyfuno adrannau)	406,549	395,856
Llyfrau Plant	81,949	94,590
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	143,559	161,254
Cynllun Darllen yn Well	175,954	243,461
Gwariant adnewyddu a chyfalaf	74,341	105,883
Costau cefnogi	328,658	352,930
Costau anarferol		
Darpariaeth ar gyfer tâl gwyliau	17,254	3,827
Cyfraniadau pensiwn ychwanegol	95,700	—
Tâl diwyddo a chostau ad-drefnu	73,266	—
Symudiad yn Rhwymedigaeth y Cynllun Pensiwn	227,000	632,000
	1,934,338	2,410,283

9. Incwm a Gwariant y Ganolfan Ddosbarthu

	2021	2020
	£	£
Incwm	2,339,569	2,799,725
Costau		
Llyfrau a brynwyd	1,790,901	2,199,187
Cyflogau, yswiriant, pensiwn	354,548	367,413
Costau rhedeg cerbydau	8,597	10,311
Teithio, cynhaliaeth	257	934
Cludiant, post, deunydd pacio	97,570	103,669
Prynu, cynnal a chadw offer	30,839	33,643
Rhent, trethi, gwres, golau, ffôn	11,585	11,922
Yswiriant, cynnal a chadw adeiladau	12,354	13,886
Argraffu, papur	2,344	2,811
Disgownt a ganiateir	17,188	29,415
Mân wariant	12,018	14,049
Cyfanswm Gwariant	2,338,201	2,787,240
Elw /(Diffyg) am y flwyddyn	1,368	12,485

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

10. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd

	Costau Staff	Costau Eraill	Grantiau	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£	£	£
Costau elusennol uniongyrchol	1,577,944	3,428,430	2,408,096	7,414,470	8,054,006

11. Staff

	2021	2020
	£	£
Cyflogau	1,200,357	1,148,429
Yswiriant Gwladol Cyflogwr	110,036	103,114
Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr	171,851	164,222
Cost/ (gwyliau) ychwanegol Pensiwn	95,700	(24,400)
Cyfanswm cyflogau	1,577,944	1,391,365
 Cyfartaledd nifer y staff a gyflogid yn ystod y flwyddyn (Swyddi llawn-amser)	 40	 40

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth 1 aelod o'r staff (2020 – 1) ennill, gan gynnwys yswiriant cenedlaethol, rhwng £60,000 a £70,000.

Costau staff allweddol

Ynghyd â'r Prif Weithredwr, mae pedwar pennaeth adran (2020 – 4) sy'n ffurfio'r Uwch Dîm Rheoli, a gwnaethpwyd y taliadau isod iddynt yn ystod y flwyddyn:

	2021	2020
	£	£
Cyflogau	228,625	216,645
Treuliau Nawdd Cymdeithasol	25,336	24,043
Costau pensiwn	33,608	31,354
	287,569	272,042

12. Tâl i'r ymddiriedolwyr

Nid yw'r ymddiriedolwyr yn derbyn unrhyw dâl gan eu bod yn cael eu penodi gan awdurdodau neu gyrff allanol, ac nid oes ganddynt hawl i dderbyn tâl. Y swm am ddigolledu treuliau (teithio i gyfarfodydd ayyb) yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn oedd £DIM (2020: £866).

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

13. Asedau Sefydlog

	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol £	Cyfrifiaduron ac offer eraill £	Celfi a mân offer £	Cyfanswm £
Gwerth				
Ar 1 Ebrill 2020	253,008	225,987	10,821	489,816
Ychwanegiadau	–	134,930	34,480	169,410
Ar 31 Mawrth 2021	253,008	360,917	45,301	659,226
Dibrisiant				
ar 1 Ebrill 2020	–	225,987	10,821	236,808
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	–	–	6,896	6,896
ar 31 Mawrth 2021	–	225,987	17,717	243,704
Gwerth net				
ar 31 Mawrth 2021	253,008	134,930	27,584	415,522
ar 31 Mawrth 2020	253,008	–	–	253,008

Defnyddir yr holl asedau i bwrpas elusennol.

14. Buddsoddiadau

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yr oedd gwerth y buddsoddiadau hyn ar y farchnad yn £188,006 (2020 – £163,127).

Mae'r buddsoddiadau'n cael eu dal gan gwmni Blackrock yng nghronfeydd Charinco a Charinshare sydd wedi eu lleoli ym Mhrydain.

Cydnabyddir y buddsoddiadau yn ôl eu gwerth masnachol ar ddyddiad y fantolen. Mae'r buddsoddiadau wedi cael eu hailbriso, a chydabyddir unrhyw enillion neu golledion yn y Dadansoddiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

15. Dyledwyr

	2021 £	2020 £
Dyledwyr masnachol	154,269	212,328
Dyledwyr eraill	107,710	480,824
Blaendaliadau	11,050	22,526
	273,029	715,678

Mae pob swm a nodir yn ddyledus mewn llai na blwyddyn.

16. Arian yn y banc ac mewn llaw

	2021 £	2020 £
Tocynnau Llyfrau	277,625	266,593
Eraill	1,299,719	500,930
	1,577,344	767,523

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

17. Credydwy'r Symiau'n dod yn ddyledus yn ystod y flwyddyn

	2021	2020
	£	£
Credydwy'r masnachol	366,316	386,534
Tocynnau Llyfrau	223,664	213,031
Trethi a Phensiwn	–	42,108
Credydwy'r eraill	125,666	86,089
	<u>715,646</u>	<u>727,762</u>

Nid oes unrhyw gredydwy'r am fwy nag un flwyddyn, ac eithrio tocynnau llyfrau lle na ellir bod yn sicr pryd y byddant yn daladwy.

18. Cronfeydd Anghyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2020 £	Derbyniwyd £	Talwyd £	Trosglwyddiad a phensiwn £	Balans 31 Mawrth 2021 £
Cronfeydd Cyfalaf	500,000	–	–	–	500,000
Cronfeydd Incwm					
Cronfa Bensiwn	(3,641,000)	–	227,000	391,000	(3,477,000)
Cyngor	115,640	1,296,802	1,319,070	4,734	98,106
Canolfan					
Ddosbarthu	233,306	2,339,569	2,338,201	–	234,674
	<u>(2,792,054)</u>	<u>3,636,371</u>	<u>3,884,271</u>	<u>395,734</u>	<u>(2,644,220)</u>

19. Cronfa Benodol

	Balans 1 Ebrill 2020 £	Derbyniwyd £	Talwyd £	Trosglwyddo £	Balans 31 Mawrth 2021 £
Cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru	76,521	630,000	74,341	–	632,180
Cronfa datblygiadau cyfrifiadurol	230,694	–	–	–	230,694
	<u>307,215</u>	<u>630,000</u>	<u>74,341</u>	<u>–</u>	<u>862,874</u>

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

20. Cronfeydd Cyfyngedig

		Balans 1 Ebrill 2020 £	Derbyniwyd £	Talwyd £	Balans 31 Mawrth 2021 £
Cronfa Dr Dewi Davies	i	49,858	1,783	(8,626)	60,267
Cronfa Hybu Awduron	ii	36,826	–	(7,781)	44,607
Tlws Mary Vaughan Jones	iii	4,848	1	–	4,849
Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion	iv	76,444	2,951	(3,737)	83,132
Cronfa Alun Creunant Davies	v	4,000	–	3,414	586
Grant Cyhoeddi Llywodraeth Cymru	vi	–	2,600,723	2,600,723	–
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen Adran y Gymraeg mewn Addysg	vii	–	143,559	143,559	–
Grant Argyfwng	viii	41,617	410,631	447,887	4,361
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	ix	100,000	–	47,235	52,765
Cyngor Sir Ceredigion	x	–	35,280	32,638	2,642
Cronfa T. Llew Jones	xi	–	9,449	4,449	5,000
The Reading Agency – Darllen yn Well	xii	–	2,768	–	2,768
Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd – Darllen yn Well	xiii	9,758	190,000	164,780	34,978
	xiv	–	19,659	11,174	8,485
		323,351	3,416,804	3,435,715	304,440

- i. Cronfa Dr Dewi Davies**
Mae'r llog ar y gronfa i'w ddefnyddio i ariannu gwobrau ar gyfer cystadlaethau hybu darllen ymhlith plant a phobl ifanc.
- ii. Cronfa Hybu Awduron**
Cronfa gyffredinol i hybu ysgrifennu creadigol yn y Gymraeg.
- iii. Tlws Mary Vaughan Jones**
Mae'r gronfa'n cael ei defnyddio bob tair blynedd ar gyfer gwobrwyo un a wnaeth gyfraniad nodedig i faes llyfrau plant dros gyfnod o flynyddoedd.
- iv. Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion**
Mae'r llog ar y gronfa i'w ddefnyddio i ariannu gwobrau Tir na n-Og a gweithgareddau ym maes llyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc.
- v. Cronfa Alun Creunant Davies**
Rhodd a dderbyniwyd i gynhyrchu cyfrol i ddathlu gwaith y Cyngor, lle bu peth gwariant yn ystod y flwyddyn – bydd yn cael ei chyhoeddi yn Hydref 2021.
- vi. Grant Cyhoeddi Llywodraeth Cymru**
Derbynnir grant blynyddol sydd yn gyfyngedig i bwrpasau penodol a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu a'r Llythyr Dyfarnu. Mae'r panelau grantiau yn derbyn adroddiadau rheolaidd ynglŷn â'r cyllid yma, a hwy sydd yn rhoi sêl bendith ar unrhyw wariant o'r gronfa hon.
- vii. Cynlluniau Hyrwyddo Darllen**
Derbynnir grant blynyddol sydd yn gyfyngedig i gynlluniau hyrwyddo darllen (Stori Sydyn/ Quick Reads, Diwrnod y Llyfr a Sialens Ddarllen yr Haf). Mae £140,000 o'r cyllid yn cael ei

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

- ddyfarnu gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru, gyda'r gweddill yn dod fel cyfraniad allanol i'r prosiect gan Waterstones.
- viii. Adran y Gymraeg mewn Addysg**
Derbyniwyd £330,000 i brynu llyfrau i holl ysgolion Cymru – rhaglen Iechyd Da – a ddosbarthwyd rhwng Rhagfyr a Chwefror 2021. Derbyniwyd £71,132 ar gyfer prynu llyfrau i lyfrgelloedd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Cafwyd symiau ychwanegol i gynhyrchu catalog llyfrau plant ar gyfer llyfrau 2020 (£4,999) a £4,500 ar gyfer e-lyfrau i'r sector addysg.
- ix. Grant Argyfwng**
Gwnaethpwyd cais i Lywodraeth Cymru am gyllid i gefnogi'r sector llyfrau, a derbyniwyd £150,000 ym mis Mawrth 2020. Dosbarthwyd £51,000 i siopau llyfrau ym mis Mawrth 2020 a £46,235 i gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020. Fe dosberthir gweddill yr arian yn ystod 2021/22.
- x. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
Mewn prosiect ar y cyd ag Elusen Stephens & George, trefnwyd bod llyfrau ar gael i deuluoedd difreintiedig yn sir Merthyr, gyda'r cyllid yn dod drwy law Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Daeth y prosiect i ben yn ystod y flwyddyn ond mae gwaith gwerthuso yn parhau yn 2021/22.
- xi. Cyngor Sir Ceredigion**
Cafwyd prosiect ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion i ddosbarthu llyfrau i deuluoedd difreintiedig yng Ngheredigion. Daeth y prosiect i ben yn ystod y flwyddyn ond derbyniwyd £5,000 ychwanegol i ariannu prosiect gyda gofawyr ifanc a gyflawnwyd ym mis Mehefin 2021.
- xii. Cronfa T. Llew Jones**
Derbyniwyd cyfraniad gan elusen oedd yn dod i ben dan yr amod y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo Cronfa T. Llew Jones. Mae bwriad i gynnal perfformiad theatrig gyda'r arian yma pan fydd cyfyngiadau COVID yn caniatáu.
- xiii. The Reading Agency – Darllen yn Well**
Dyma drydedd flwyddyn y rhaglen Darllen yn Well. Darperir yr arian gan The Reading Agency, sy'n elusen gofrestredig Brydeinig, ond sydd yn derbyn yr arian i'r prosiect yma gan Adran Iechyd Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith yma wedi ei neilltuo ar gyfer cyfieithu a chyhoeddi llyfrau yn ymwneud ag iechyd meddwl plant, a bydd y cyfrolau ar gael mewn llyfrgelloedd ac i'w prynu. Bydd y prosiect yn gorffen ym mis Gorffennaf 2021, felly mae elfen o'r grant wedi ei chario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- xiv. Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd – Darllen yn Well**
Derbyniwyd grant o £19,659 drwy law Cyngor Sir Gwynedd tuag at gost llyfrau'r cynllun Darllen yn Well a ddosbarthu llyfrau ac e-lyfrau i lyfrgelloedd lleol.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

21. Dadansoddiad o'r Asedau Net rhwng y Cronfeydd

	Eiddo Parhaol/ Buddsoddiadau £	Asedau Cyfredol Net £	Credydwy'r Hir Dymor £	Cyfanswm £
Cronfeydd Cyfyngedig				
Cronfa Dr Dewi Davies	60,267	–	–	60,267
Cronfa Hybu Awduron	44,607	–	–	44,607
Tlws Mary Vaughan Jones	–	4,849	–	4,849
Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion	83,132	–	–	83,132
Cronfa Alun Creunant Davies	–	586	–	586
Grant Argyfwng	–	52,765	–	52,765
Adran y Gymraeg mewn Addysg	–	4,361	–	4,361
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	–	2,642	–	2,642
Cyngor Sir Ceredigion	–	5,000	–	5,000
Cronfa T. Llew Jones	–	2,768	–	2,768
The Reading Agency – Darllen yn Well	–	43,463	–	43,463
Cronfeydd Cyfyngedig	188,006	116,434	–	304,440
Cronfa Benodol	162,514	700,360	–	862,874
Cronfeydd Anghyfyngedig	253,008	579,772	(3,477,000)	(2,644,220)
	603,528	1,396,566	(3,477,000)	(1,476,906)

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

22. Cynllun Pensiwn

Natur y Cynllun: Budd-dal Diffiniedig

Dyddiad y Prisiad Actiwaraid llawn diwethaf: 31 Mawrth 2020

TYBIAETHAU ACTIWARAIDD

Tybiaethau Ariannol	Dechrau'r Flwyddyn	Diwedd y Flwyddyn
Graddfa chwyddiant	2.10%	2.70%
Graddfa cynnydd cyflogau	3.60%	4.20%
Graddfa cynnydd pensiynau	2.20%	2.80%
Cyfradd disgownt	2.40%	2.10%

Mae ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer dangos gwerth yr asedau ar y farchnad a rhaniad yr asedau rhwng categorïau buddsoddiadau wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2021. Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer dechrau'r flwyddyn wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2020.

Mantolen yr Eitemau ar 31 Mawrth 2021

	£000
Gwerth yr Asedau ar y Farchnad	14,769
Dyledion	(17,478)
Gweddill (Diffyg)	<u>(3,477)</u>

Symudiadau'r Gweddill yn ystod 2020/21

Gweddill (Diffyg) ar ddechrau'r flwyddyn	(3,641)
Cost Gyfredol y Gwasanaeth	(406)
Cyfraniadau'r Cyflogwr	269
Cost cyfraniadau blaenorol	—
Llog Net	(85)
Costau gweinyddu	(5)
Cynnydd Actiwaraid neu newid yn y ffordd o fesur	391
Gweddill/(Diffyg) ar ddiwedd y flwyddyn	<u>(3,477)</u>

Datgeliadau Ychwanegol Asedau Pensiwn

	Asedau ar 31.03.21		Asedau ar 31.03.20	
	£000	%	£000	%
Soddyfrannau	10,361	74	8,145	73
Bondiau Llywodraeth	—		434	4
Bondiau Eraill	1,624	12	1,124	10
Eiddo	1,554	11	1,369	12
Arian	462	3	56	1
Cyfanswm	<u>14,001</u>		<u>11,128</u>	
Dyledion ar 31.03.21	<u>17,478</u>		<u>14,769</u>	

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

23. Symudiad net yn y cronfeydd

	2021	2020
	£	£
Cronfeydd Anghyfyngedig		
Cronfeydd Incwm		
Canolfan Ddosbarthu	1,368	12,485
Cyngor	(17,534)	36,235
Cronfa Bensiwn	164,000	(1,695,000)
Cronfa Benodol	555,659	69,386
Cronfeydd Cyfyngedig	(18,911)	33,995
	684,582	(1,542,899)

24. Cysoniad o incwm (gwariant) net i'r llif arian o weithgareddau gweithredu net

	2021	2020
	£	£
Incwm net am y flwyddyn	684,583	(1,542,899)
Addasiadau:		
Gwariant cyfalaf	(169,410)	—
Dibrisiant	6,896	—
(Cynnydd)/Gostyngiad yng ngwerth y Buddsoddiadau	(24,877)	15,991
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y cynllun buddion wedi'u diffinio	(164,000)	1,695,000
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y stoc	46,150	(12,909)
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y dyledwyr	442,646	(406,234)
Cynnydd /(Gostyngiad) yn y credydwy	(12,115)	(7,399)
Arian net a ddarparwyd o weithgareddau gweithredu	809,873	(258,450)